**CYNGHRAIR CYMUNEDAU DIWYDIANNOL CYMRU**

**Nodyn o gyfarfod grŵp trawsbleidiol cymunedau diwydiannol a gynhaliwyd ym Mae Caerdydd am 18.00 ar 13 Mai 2014**

**Yn bresennol:** David Rees AC (Cadeirydd); P. Slater (ICA**);** Y Cyng J. Ward (CBS Rhondda Cynon Taf); D. Pike (CBS Rhondda Cynon Taf); Y Cyng D. White (CBS Pen-y-bont ar Ogwr); J. Peters (CBS Pen-y-bont ar Ogwr), J. Dixon (ICA).

1. Agorodd David Rees AC y cyfarfod a chroesawodd bawb i Fae Caerdydd. Eglurodd fod y cyfarfod wedi cael ei alw i drafod adroddiad newydd gan yr ICA, '*RE-BUILDING THE ECONOMY OF WALES' INDUSTRIAL COMMUNITIES – A ten-point action plan for government'.*

2. Cyflwynodd Peter Slater, Cyfarwyddwr ICA Cymru, yr adroddiad a disgrifiodd y cyd-destun ar gyfer ei gyhoeddi, sef bod angen o hyd i newid y cydbwysedd yn economi'r DU er mwyn sicrhau bod manteision twf a swyddi yn dod i bob rhanbarth, yn enwedig y rhai sydd eto mewn adfyd ar ôl colli swyddi yn y diwydiannau glo a dur. Disgrifiodd sut y mae llewyrch a llwyddiant economïau lleol yn rhan annatod o sicrhau bod y rhagamodau ar gyfer twf yn yr economi genedlaethol yn cael eu cyflawni. Maent yn cynnwys: cadw cyfraddau cyfnewid a llog yn isel; ymagwedd bwyllog at leihau diffyg ariannol; buddsoddi mewn hyfforddiant ac addysg; sefydlu system fancio sy'n cefnogi busnes; sefydlu cyfundrefnau rheoleiddio sy'n annog twf mewn buddsoddi.

3. Ar fater y Cynllun Gweithredu, hysbyswyd y cyfarfod mai newid cydbwysedd yr economi o blaid diwydiant a'r rhanbarthau oedd wrth wraidd y strategaeth, gyda'r pwyslais ar adfywio buddsoddi a chynhyrchu diwydiannol, a fyddai'n arbennig o fuddiol i Gymru, canolbarth Lloegr, gogledd Lloegr a'r Alban, lle mae llawer o weithgynhyrchu'r DU yn digwydd. Yn hyn o beth, roedd yr ICA yn gryf o'r farn y byddai adfywiad economaidd yn y Brydain ddiwydiannol yn gweld adnoddau nas defnyddir ddigon, sef tir, llafur ac eiddo, yn cael mwy o ddefnydd, gan ysgafnhau'r pwysau di-baid ac anghynaliadwy ar adnoddau yn y de.

4. O ran y meysydd polisi penodol yn y cynllun 10 pwynt, tynnodd Peter Slater sylw at y meysydd canlynol fel rhai hanfodol er mwyn sicrhau cyfraddau uwch o dwf economaidd yn ardaloedd diwydiannol hŷn Cymru: defnyddio caffael fel offeryn datblygu—sef rhywbeth a gydnabyddir eisoes gan Lywodraeth Cymru; buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi'r rhanbarthau, yn enwedig prosiectau trafnidiaeth megis Metro'r Cymoedd; cyflwyno strwythurau effeithiol sy'n gweithio, gan sicrhau bod mentrau fel y Dinas-ranbarthau yn cael yr adnoddau a'r pwerau angenrheidiol i gyflawni eu strategaethau; gwneud y mwyaf o effaith Cronfeydd Strwythurol 2014-20; cefnogi busnesau trwy fesurau

cymorth ariannol effeithiol sy'n gwneud y gorau o'r manteision helaeth sy'n dod o'r ffaith fod rannau mawr o Gymru yn ardaloedd a gynorthwyir â statws Haen 1; sicrhau bod gan yr Ardaloedd Menter yr ystod ehangaf o gymhellion i hybu twf economaidd a swyddi; adeiladu ar lwyddiant Twf Swyddi Cymru; canolbwyntio ar dyfu economïau lleol a rhanbarthol yn hytrach nag ar leihau budd-daliadau lles sy'n bwrw'r cymunedau tlotaf galetaf.

5. Yna cafwyd trafodaeth fer ar faterion megis y dinas-ranbarthau a gallu Caerdydd i lanw'r bwlch o ran swyddi yn y Cymoedd, yn ogystal â llwyddiant Twf Swyddi Cymru, sef rhaglen Llywodraeth Cymru y mae'r ICA wedi dwyn i sylw ei aelodau yn rhanbarthau eraill y DU.

6. Yn deillio o'r cyflwyniad a'r drafodaeth, cytunwyd ar gylchredeg y cyflwyniad a chopïau o'r cynllun ymysg Aelodau'r Cynulliad a chytunwyd y byddai'r ICA yn ceisio cyfarfodydd gyda'r Gweinidogion priodol i drafod meysydd o fudd i'r ddwy ochr.

Peter Slater, Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru